Prifysgol Wrecsam 2025

Cynllun Gweithredu Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae’r Adolygiad Gwella Ansawdd yn digwydd bob chwe blynedd a dyma’r dull y caiff darparwyr addysg uwch Cymru eu hadolygu gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd dan y Fframwaith Asesu Ansawdd Medr (HEFCW gynt).

Ymwelodd y tîm adolygu â’r Brifysgol ym mis Chwefror 2025 i gyfarfod â myfyrwyr, staff a darparwyr lleoliadau.

Cadarnhaodd yr adolygiad fod;

- Prifysgol Wrecsam yn bodloni gofynion Rhan 1 Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd ar gyfer sicrwydd ansawdd mewnol;
- Prifysgol Wrecsam yn bodloni gofynion rheoliadol sylfaenol perthnasol Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru.

Mae hon yn farn gadarnhaol, sy'n golygu bod gan y Brifysgol drefniadau cadarn ar gyfer sicrhau safonau academaidd, rheoli ansawdd academaidd ac ar gyfer gwella ansawdd profiad y myfyrwyr.

Gwnaeth y tîm adolygu ddwy ganmoliaeth ac un argymhelliad, gyda 5 maes o ddatblygiad parhaus.

Mae'r cynllun gweithredu hwn wedi'i ddatblygu ar y cyd gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr. Mae datblygu cynllun gweithredu yn dilyn yr ymweliad adolygu yn rhan annatod o broses yr Adolygiad Gwella Ansawdd.

Bydd y gwaith o weithredu'r cynllun gweithredu yn cael ei fonitro gan drwy'r Bwrdd Academaidd.

| Canmoliaeth neu Argymhelliad neu faes datblygiad parhaus | Camau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Canlyniad | Dyddiad Targed ar gyfer Cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| **Canmoliaeth**: Ymagwedd strategol y Brifysgol i ddiwallu anghenion y rhanbarth, yn cynnwys y pwyslais ar gynhwysiant ac ehangu mynediad, a hyrwyddo'r iaith Gymraeg, diwylliant a'r economi | Parhau i ddatblygu a gweithredu strategaethau perthnasol ar gyfer ymgysylltu rhanbarthol, cenhadaeth ddinesig a'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru. Enghreifftiau fyddai ailgynllunio CYFLE i wella a datblygu dysgu Cyfrwng Cymraeg ymhellach mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol sydd wedi'i gynllunio i gynorthwyo nod Llywodraeth Cymru i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac i gyfrannu at weithlu dwyieithog y dyfodol. Yn ogystal, bydd y Brifysgol yn parhau i ddatblygu llwybrau pellach ar gyfer y Gymraeg yn y Gweithle a sgiliau iaith Gymraeg pwrpasol ar gyfer Plismona, Gwaith Cymdeithasol, Iechyd a Nyrsio, a gwaith mewn meysydd pwnc eraill. Bydd ein partneriaeth â Phartneriaeth Ymestyn yn Ehangach Gogledd Cymru yn parhau i fod yn berthynas allweddol (o ran sut rydym yn parhau i weithio ar y cyd ar draws y rhanbarth i gynorthwyo dysgwyr i addysg uwch) fel y bydd ein gwaith gyda Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru a chyrff datblygu a sgiliau rhanbarthol eraill. | Dirprwy Is-ganghellor Ymgysylltu Allanol<br><br>Pennaeth Datblygu Cyfrwng Cymraeg | Mae dull strategol y Brifysgol yn parhau i ddiwallu anghenion y rhanbarth, yn cynnwys y pwyslais ar gynhwysiant ac ehangu mynediad, a hyrwyddo'r iaith Gymraeg, diwylliant a'r economi. | Parhaus |
| **Canmoliaeth:** Y gwaith sy'n cael ei wneud ar draws y Brifysgol i integreiddio arferion cynhwysol sy'n seiliedig ar drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar draws | Bydd y gwaith yn parhau i flaenoriaethu a hyrwyddo TrACE ar draws amrywiaeth o feysydd, yn cynnwys:<br>• Gwaith parhaus gyda Bwrdd Trosedd a Chyfiawnder Cymru a chyda'n partneriaid, yr Hwb Cenedlaethol Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod<br>• Galluogi cymuned ymarfer ranbarthol TrACE, gan weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd | Dirprwy Is-ganghellor<br>Deon y Gyfadran Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd | Bydd y Brifysgol yn parhau i ymgorffori ein cydnabyddiaeth a'n harfer o fod yn seiliedig ar TrACE ym mhopeth a wnawn ac o fewn ein polisïau a'n gweithdrefnau, gan | Parhaus |

| Canmoliaeth neu Argymhelliad neu faes datblygiad parhaus | Camau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Canlyniad | Dyddiad Targed ar gyfer Cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| cymorth academaidd, bugeiliol a dysgu, er mwyn galluogi pob myfyriwr i gyflawni ei botensial | Prifysgol Betsi Cadwaladr a Straen Trawmatig Cymru yn Theatr Clwyd<br>• Ymgorffori TrACE ar draws ein holl brosiectau a gwaith cenhadaeth ddinesig a gweithio gyda Datblygiad Sefydliadol i alluogi'r gwaith hwn i fod yn fusnes fel arfer.<br>• Gweithio tuag at greu cynllun galluogi lles gweithlu sy'n seiliedig ar drawma yn y brifysgol. | | weithio i gynorthwyo ein holl fyfyrwyr i lwyddo. | |
| **Argymhelliad**: Sicrhau bod trefniadau tiwtora personol yn cael eu gweithredu'n gyson er budd myfyrwyr | Mae gan y Brifysgol Archwiliad Sicrhau Ansawdd Blynyddol ar waith, ac ar gyfer 2025/26 bydd archwiliad o'r fath yn canolbwyntio ar Diwtora Personol. Fel man cychwyn, bydd yr archwiliad yn cymryd y trafodaethau gyda'r Panel WER a'u hadborth a'u hargymhellion dilynol. Bydd hyn yn cynnwys ystod eang o staff academaidd a phroffesiynol yn ogystal â myfyrwyr, a bydd yn ystyried ystod eang o ffactorau yn cynnwys cyfathrebu, amserlennu effeithiol, cofnodi neu adrodd, monitro ac adrodd cysylltiedig. Yn yr un modd â phob gwaith o'r fath, bydd Undeb y Myfyrwyr yn ymwneud yn agos. Yna bydd yr Archwiliad hwn yn ffurfio'r sail ar gyfer llywio ac adolygu ymarfer, a bydd effeithiolrwydd camau gweithredu dilynol yn cael ei fonitro drwy'r Pwyllgor Profiad a Chyfleoedd Myfyrwyr. | Dirprwy Is-ganghellor<br><br>Dirprwy Is-ganghellor Cyswllt Datblygiad Academaidd | Bydd fframwaith cadarn yn cael ei gymhwyso'n gyson a threfniadau cysylltiedig ar gyfer system Tiwtora Personol ledled y Brifysgol sy'n cynorthwyo ein holl fyfyrwyr drwy gydol eu taith mewn addysg uwch. | Medi 2026 |
| **Maes datblygiad parhaus**: Y camau sy'n cael eu cymryd i gasglu sylwadau myfyrwyr yn gyson ac yn gymesur i wneud y mwyaf o | Cyflwynwyd llinyn Tîm Datblygu Academaidd Llais Myfyrwyr ac Arolygon yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25 i edrych ar gyfleoedd gwella posibl yn y maes hwn. Yn ogystal â hyn, mae gweithgor dros dro yn cael ei sefydlu sy'n adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac | Dirprwy Is-ganghellor Cyswllt Datblygiad Academaidd | Eglurder a chysondeb gwell wrth gasglu a gwerthuso adborth myfyrwyr i lywio a gwella | Mehefin 26 |

| Canmoliaeth neu Argymhelliad neu faes datblygiad parhaus | Camau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Canlyniad | Dyddiad Targed ar gyfer Cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| ymgysylltiad ac adborth myfyrwyr | Addysgu ac sy'n edrych ar Fforymau Llais Myfyrwyr a Gwerthusiadau Diwedd Modiwl Myfyrwyr. Bydd canfyddiadau'r adolygiad yn cael eu hystyried drwy'r ddau fecanwaith i sicrhau bod y mecanweithiau adborth a gynigir i fyfyrwyr yn glir a bod dolenni adborth caeëdig yn cael eu cyfleu'n glir i fyfyrwyr. | | profiad y myfyrwyr yn effeithiol. | |
| **Maes datblygiad parhaus:** Y camau sy'n cael eu cymryd i barhau i adolygu'r ddarpariaeth o ddeunyddiau llyfrgell digidol a ffisegol i fyfyrwyr | Bydd cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu, wedi'i gynorthwyo gan rwydwaith Tîm Datblygu Academaidd, i sicrhau bod y ddarpariaeth llyfrgell yn briodol ar gyfer diwallu anghenion myfyrwyr. Bydd hyn yn cwmpasu pob safle ac yn berthnasol i'n holl garfannau myfyrwyr. Bydd ystod o gamau'n cael eu cymryd yn cynnwys adolygiad gan Lyfrgellwyr Cymorth Academaidd o restrau darllen yn erbyn manylebau modiwlau i lywio penderfyniadau prynu a chysylltu â chydweithwyr academaidd i ddatblygu'r casgliad ymhellach. Bydd adolygiad hefyd o'r ffordd orau o wneud adnoddau digidol eraill ar gael a sut allwn sicrhau cefnogaeth ar gyfer ein myfyrwyr ar-lein.<br><br>Bydd cynrychiolwyr myfyrwyr yn rhan bwysig o sut ydym yn hyrwyddo'r offer sydd ar gael i fyfyrwyr, a sut ellir cynorthwyo myfyrwyr, yn ogystal â gweithdai sy'n cael eu cynnal gan ein Tîm Dysgu Digidol gyda chanllawiau ysgrifenedig ar ddefnyddio'r offer hwn i gynorthwyo myfyrwyr.<br>Mae angen codi ymwybyddiaeth i fynd i'r afael â'r canfyddiad bod pob teitl print ar gael fel eLyfrau, a | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau | Darpariaeth effeithiol a digonol o ddarpariaethau llyfrgell, gydag adolygiadau rheolaidd cysylltiedig ar waith yn barhaus | parhaus |

| Canmoliaeth neu Argymhelliad neu faes datblygiad parhaus | Camau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Canlyniad | Dyddiad Targed ar gyfer Cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | gellid cyflawni hyn drwy gydweithio'n agosach â chydweithwyr academaidd i rannu gwybodaeth â myfyrwyr. | | | |
| **Maes datblygiad parhaus:** Y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod yr holl farciau ar gyfer cyrsiau byr yn cael eu cyflwyno i fwrdd asesu, ac yna'n cael eu hystyried ganddo, o fewn yr amserlen a drefnwyd | Mae'r Brifysgol yn datblygu Polisi Cymwysterau Cwrs Byr a Micro, sy'n anelu at ffurfioli'r prosesau sydd eisoes ar waith i lywodraethu Cyrsiau Byr yn y Brifysgol a darparu fframwaith ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau'r gwahanol randdeiliaid sy'n ymwneud â'r broses, megis y Tîm Asesu a Dyfarniadau a bydd yn edrych i fapio prosesau cyfredol ac egluro gofynion. Cynhelir proses ymgynghori i sicrhau bod cyfle gan bawb sy'n rhan o'r broses i helpu i lunio'r polisi. Bydd y polisi'n sicrhau bod y broses ar gyfer ystyried marciau wedi'i nodi'n glir a'i bod yn ddealladwy i bawb. | Dirprwy Is-ganghellor Cyswllt Datblygiad Academaidd<br><br>Pennaeth Ansawdd | Polisi ac ymarfer cysylltiedig effeithiol sy'n sicrhau rheolaeth effeithiol o bob agwedd ar gyrsiau byr, yn cynnwys prydlondeb prosesau sy'n ymwneud â marcio. | Rhag 2025 |
| **Maes datblygiad parhaus:** Bod rôl Bwrdd y Llywodraethwyr yn cael ei hadolygu'n barhaus wrth gymeradwyo a goruchwylio trefniadau partneriaeth academaidd | Mae'r Tîm Ansawdd a Rheoliadau gyda'r Swyddfa Bartneriaethau yn cynnal yr adolygiad blynyddol o'r Gweithdrefnau Partneriaethau Academaidd. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth o rôl y Bwrdd wrth gymeradwyo a goruchwylio partneriaethau. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal yn flynyddol ochr yn ochr â'r holl Reoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau sy'n cael eu rheoli gan yr Adran Ansawdd a Rheoliadau | Ysgrifennydd y Brifysgol<br><br>Dirprwy Is-ganghellor | Sicrhau cymeradwyaeth a goruchwyliaeth barhaus a chadarn o bartneriaethau, gyda lefelau priodol o gyfranogiad llywodraethwyr | Parhaus |
| **Maes datblygiad parhaus**: Y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer cymeradwyo | Mae'r broses gomisiynu ar gyfer partneriaethau newydd wedi'i diwygio'n sylweddol fel y dangosir yng Ngweithdrefn Partneriaethau Academaidd 24-25, bydd y Brifysgol yn parhau i ddefnyddio'r broses sydd | Dirprwy Is-ganghellor<br>Dirprwy Is-ganghellor Cyswllt | Cymeradwyaeth a goruchwyliaeth effeithiol a chadarn o bartneriaethau o fewn y Brifysgol, o'u | Parhaus |

| Canmoliaeth neu Argymhelliad neu faes datblygiad parhaus | Camau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Canlyniad | Dyddiad Targed ar gyfer Cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| partneriaethau newydd a goruchwylio ansawdd a safonau o fewn partneriaethau academaidd yn effeithiol | ar waith a'i haddasu yn ôl yr angen i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn gadarn.<br><br>Bydd trefniadau partneriaethau presennol yn parhau i gael eu hadolygu, yn cynnwys 'edrych yn fanwl' lle bo angen, ymweliadau partner ac adroddiadau/cynlluniau gweithredu. Bydd hyn yn cael ei gynnal drwy'r broses Adolygu Mewnol Partneriaid Academaidd. | Datblygiad Academaidd<br><br>Dirprwy Is-ganghellor Ymgysylltu Allanol | cymeradwyo hyd at eu cyflwyno a (pryd bynnag sy'n briodol) hyd at eu terfynu a rhoi'r gorau i'w haddysgu. | |
| **Maes datblygiad parhaus**: Y camau sy'n cael eu cymryd i fonitro a goruchwylio'r trefniadau sydd ar waith i ddiogelu safonau academaidd, sicrhau ansawdd, a phrofiad y myfyrwyr tra bod rhaglenni darpariaeth gydweithredol yn cael eu haddysgu neu'n cael eu dirwyn i ben. | Pryd bynnag mae'r Brifysgol wedi penderfynu dod â phartneriaeth i ben, mae'r Tîm Ansawdd a Rheoliadau a'r Swyddfa Bartneriaethau wedi ac yn gweithio gyda'i gilydd i reoli'r broses addysgu.<br><br>Bydd y gwaith hwn yn cael ei fonitro drwy'r Pwyllgor partneriaethau Academaidd yn y lle cyntaf, lle bydd eitemau sefydlog perthnasol ar waith i alluogi adrodd ar bob agwedd ar bartneriaethau academaidd. | Dirprwy Is-ganghellor Dirprwy Is-ganghellor Cyswllt Datblygiad Academaidd<br><br>Dirprwy Is-ganghellor Ymgysylltu Allanol | Cymeradwyaeth a goruchwyliaeth effeithiol a chadarn o bartneriaethau o fewn y Brifysgol, o'u cymeradwyo hyd at eu cyflwyno a (pryd bynnag sy'n briodol) hyd at eu terfynu a rhoi'r gorau i'w haddysgu. | Parhaus |